OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 291 (Cy. 53)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Y Bont Newydd dros Afon Dyfi, Machynlleth, Powys / Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 30 mya a 50 mya) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *5 Mawrth 2024* |
| *Yn dod i rym* | *8 Mawrth 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddogion Heddlu Dyfed-Powys a Heddlu Gogledd Cymru ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 84(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

**Enwi a Chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Y Bont Newydd dros Afon Dyfi, Machynlleth, Powys / Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 30 mya a 50 mya) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Mawrth 2024.

---

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A487 Bangor i Abergwaun;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

---

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

Dyddiedig 5 Mawrth 2024

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**

**TERFYN CYFLYMDER 30 MYA**

Y darn o gefnffordd yr A487 o'i chyffordd â ffordd ddosbarthiadol yr A493 ar bwynt 30 o fetrau i'r gogledd o ffin Powys/Gwynedd ac i'r gogledd o'r hen Bont dros Afon Dyfi yn Sir Gwynedd hyd at bwynt 191 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â ffordd ddosbarthiadol yr A493 yn Sir Gwynedd.

Y darn o gefnffordd yr A487 o'r gyffordd-T newydd, ar bwynt 90 o fetrau i'r gogledd o linell ganol Pont Reilffordd Machynlleth yn Sir Powys, hyd at bwynt 43 o fetrau i'r de o ffin Powys/Gwynedd ac i'r de o'r hen Bont dros Afon Dyfi yn Sir Powys.

**ATODLEN 2**

**TERFYN CYFLYMDER 50 MYA**

Y darn o gefnffordd yr A487 o bwynt 191 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â ffordd ddosbarthiadol yr A493 yn Sir Gwynedd hyd at bwynt 260 o fetrau i'r de o'i chyffordd â'r B4404 ar y gyffordd-T ynys ffug newydd yn Ffridd Gate yn Sir Gwynedd.

Y darn o gefnffordd yr A487 rhwng pwynt 203 o fetrau i'r gogledd o linell ganol Pont Reilffordd Machynlleth yn Sir Powys hyd at bwynt 21 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r B4404 yn Sir Gwynedd.